

## JONES, OWEN (1833 - 1899), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a llenor

**Enw:** Owen Jones  
**Dyddiad geni:** 1833  
**Dyddiad marw:** 1899  
**Priod:** Margaret Jane Jones (née Jones)  
**Rhiant:** Thomas Jones  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 12 Hydref 1833 yn y Weirglodd Ddu, Llanuwchllyn; ei dad, Thomas Jones, yn aelod gynt yn yr Hen Gapel, ond wedi troi at y Methodistiaid Calfinaidd yn ystod helyntion y 'System Newydd' (gweler [Jones, Michael](#)), a'i fam yn chwaer i dad [Syr Owen M. Edwards](#). Symudodd y teulu i'r Fron-gain, yn Waun y Bala, ac yn Llidiardau y dechreuodd Owen Jones bregethu. Eisoes, yn fachgen, yr oedd wedi bwrw rhai misoedd yn athrofa'r Bala, ond yn awr dychwelodd iddi i gychwyn cwrs a'i harweiniodd wedyn i Goleg y Brifysgol yn Llundain, lle y graddiodd (gydag anrhydedd) yn 1861. Ordeiniwyd ef yn 1864, a bu'n weinidog ym Mlaenau Ffestiniog (1864-72) ac yn Chatham Street, Lerpwl (1872-92); yna ymddeolodd i Lansantffraid ym Mechain, lle y bu farw 13 Ionawr 1899. Ei wraig oedd Margaret Jane Jones, siop T Cornel, Llanfyllin - bu hi farw yn Ionawr 1909.

Er iddo lywyddu sasiwn y Gogledd (1887) a'r gymanfa gyffredinol (1894), llenor a llyfryddwr oedd Owen Jones uwchlaw popeth. Naturiol, ac yntau'n adnabod Llidiardau er yn fore, fu iddo ymuno â [Robert Thomas](#) (1796 - 1866) i sgrifennu cofiant [Dafydd Rolant](#) (1795 - 1861) yn 1863; ac yn 1869 cyhoeddodd lyfr ar [Robert Thomas](#) ei hunan. Gwnaeth ei argraffiad, 1889, o *Lyfr y Tri Aderyn* lawer i ailgodi [Morgan Llwyd](#) i sylw'r werin; a bu ei ddycnwch fel prynwr llyfrau'n symbyliad iddo i gyfrannu ysgrifau pwysig i'r *Traethodydd*- noder, e.e. ei ddwy ysgrif yno (1887) 'ar [Jeremy Owen](#). Yr oedd yn awdurdod ar emynyddiaeth. Daeth ei gasgliad o lyfrau Cymraeg yn rhan o'r Llyfrgell Genedlaethol.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

J. H. Davies yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, i, 17-20

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1900, 180

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734088](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

